Cambian

| Testun Pryder | Rhif y Rheoliad | Ymateb / cynllun gweithredu | Unigolyn sy'n cyflawni'r Cam gweithredu | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|
| 1. Nodwyd y problemau staffio canlynol:<br>a. Roedd nifer sylweddol o achlysuron lle roedd dim ond 2 nyrs gofrestredig ar gael yn ystod y nos (1 ar bob un o'r ddwy ward) gan ei wneud yn anodd i'r nyrsys gael saib.<br>b. Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu cadw a recriwtio staff. Ers Ionawr 2014, mae 10 nyrs gofrestredig wedi gadael y sefydliad.<br>c. Mae angen recriwtio nyrs iechyd corfforol a chanddi hyfforddiant addas i ddarparu gofal. Rhaid mynd i'r afael â'r materion staffio a nodwyd uchod fel mater o frys. | **Rheoliad 20 (1) (a)** | 1a) Mae'r ysbyty yn parhau i recriwtio, ac adeg ysgrifennu'r cynllun gweithredu hwn dim ond swyddi gwag ar gyfer 1.5 o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a 6.5 o weithwyr cymorth sydd ganddo. Fodd bynnag, mae 4 nyrs iechyd meddwl gofrestredig ar eu ffordd ac yn aros am wiriad llawn cyn cael dyddiadau dechrau. Bydd yr ysbyty yn parhau ei ymgyrch recriwtio i edrych ar niferoedd cynyddol o staff banc, gan gynnwys staff Cymorth a nyrsys iechyd meddwl cofrestredig. Bydd recriwtio hefyd yn cael ei adolygu'n gorfforaethol gan y rheolwr gyfarwyddwr ar gyfer gwasanaethau oedolion. Bydd yr ysbyty yn parhau i sicrhau bod tair nyrs ledled y safle yn y nos. Mae hyn yn ddibynnol ar beidio â chael salwch, a'r gallu i lenwi'r swydd pan fydd hyn yn digwydd. Mae'r Ysbyty wedi parhau i anfon copïau wythnosol o'r rotâu dyletswydd i ddangos tystiolaeth bod yr ysbyty wedi parhau i weithio ar y rhifau cywir, a bydd yr ysbyty yn parhau i anfon rhain ynghyd â sylwadau pan fo angen.<br>Ein hateb tymor byr i lenwi'r swyddi sy'n wag ar hyn o bryd yw i barhau i ddefnyddio gweithwyr asiantaeth rheolaidd. Rydym yn anelu at leihau ein defnydd o asiantaethau yn araf deg wrth i recriwtiaid newydd ddechrau swyddi. | Rheolwr Cofrestredig a Phenaethiaid Gofal Gweinyddwyr Adnoddau Dynol | 31 Hydref 2014 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | b) Gweler yr atodiad (atodiad A - tystiolaeth nyrs iechyd meddwl cofrestredig sy'n gadael)<br><br>c)Mae gennym nyrs gyffredinol gofrestredig a fydd yn ymweld yn ystod wythnos 8 Medi ac ar ôl clywed sôn am y swydd mae ganddi ddiddordeb ynddi. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, bydd hysbyseb am Nyrs Iechyd Corfforol penodedig yn cael ei wneud. | Rheolwr Cofrestredig Gweinyddwr<br><br>Gweinyddwyr i'w hysbysebu | Cwblhawyd<br><br>31 Awst 2014 |
| 2. Nodwyd y materion/problemau canlynol gyda'r ystafell/clinig triniaeth yn Delfryn House.<br>a. Ar sawl achlysur ni chafwyd dau lofnod ar gyfer rhoi cyffuriau a reolir. | **Rheoliad 15 (5) (a) (b)** | 2a) Crybwyllwyd y mater hwn a gweithredwyd yn ei gylch drwy'r broses goruchwylio. Cafodd cymwyseddau meddyginiaeth eu hailwneud ar gyfer yr unigolion dan sylw, a chaiff y broses hon ei monitro drwy archwiliad misol y Clinig. | Rheolwr Cofrestredig yn cynnal cyfweliad | Cwblhawyd |
| b. Nid oedd y label ar dabledi Diazepam ar | | b) Meddyginiaeth (Diazepam) wedi'i hail-archebu a'i chywiro. | Pennaeth Gofal | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyfer claf A yn cyd-fynd â'r cyfarwyddiadau ar y siart rhoi cyffuriau. Roedd y cyfarwyddiadau yn dweud 2mg dair gwaith y dydd, ond roedd y label yn dweud 4 gwaith y dydd. | | | | |
| c. Roedd claf A wedi cael presgripsiwn am chwistrell Glandosane, fodd bynnag nid oedd cofnod ei bod yn cael ei rhoi i'r claf. Gwnaeth y nyrs gofrestredig hysbysu'r Arolygydd nad oedd angen hon bellach, felly mae angen adolygu'r feddyginiaeth. | | c) Roedd hon yn feddyginiaeth PRN ac nid oedd ei hangen bellach. Mae hyn wedi'i adolygu a'i ddiddymu. | Pennaeth Gofal a Chlinigwr Cyfrifol | Cwblhawyd |
| d. Nid oedd y label Piportil Depot ar focs y feddyginiaeth (100mgs) yn cyd-fynd â'r cofnod o roi'r feddyginiaeth (150mgs). | | d) Mae'r feddyginiaeth hon wedi'i hailarchebu a chywirwyd y cofnod gweinyddol. | Pennaeth Gofal | 21/07/14 |
| e. Nid oedd y dyddiad ar rai o'r poteli ar gyfer samplau gwaed yn gyfredol. | | e) Wedi'i ddatrys a'i gywiro'n syth. | Pennaeth Gofal | 21/07/14 |
| f. Nid oedd cofnod bod y | | f) Wedi'i ddatrys a dogfennaeth ar waith i gwblhau | Pennaeth Gofal | 21/07/14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| silindr ocsigen wedi cael ei wirio.<br><br><br>Rhaid mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a chynnal archwiliad Fferylliaeth.<br>3. Nodwyd y materion canlynol mewn sampl o saith dogfen cynllun gofal:<br>a. Nid oedd tystiolaeth o lofnod Claf B (Delfryn House) pan newidiodd ei lefel risg.<br>b. Nid oedd yradrannau camddefnyddio sylweddau ac amgylchiadau cymdeithasol wedi cael eu graddio yn asesiad risg derbyn claf B.<br>c. Cofnodwyd graddfa risg oddrychol yn asesiad risg derbyn claf B.<br>Roedd gan ddau faes risg gyfredol, a graddiwyd un yn "isel" ac un yn "uchel". | **Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c)** | gwiriadau yn ôl yr angen.<br><br><br>Bydd Archwiliadau Clinigol Misol yn parhau i gael eu cynnal a gwahoddwyd Fferyllfa Speed i gynnal Archwiliad annibynnol.<br><br>3a) Wedi'i ddatrys a'i gwblhau gan nyrs allweddol.<br><br>b) Cwblhawyd gan Nyrs allweddol.<br><br>c)Ymweliad gan gyfarwyddwr iechyd meddwl oedolion ar ddydd Gwener 29 Awst i adolygu'r mater hwn, gan ystyried defnyddio taflen nodiadau i lywio'r broses o raddio risg. | Pennaeth Gofal<br><br>Rheolwr Cofrestredig<br>Nyrs allweddol<br><br>Nyrs allweddol<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion.<br>Pennaeth Gofal<br>Tîm nyrsio<br>Tîm amlddisgyblaethol | Gofynnwyd am archwiliad ac yn aros am gadarnhad o ddyddiad, yn ddibynnol ar Argaeledd y Fferyllfa.<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>I'w cwblhau erbyn diwedd mis Medi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| d. Roedd cynllun gofal claf B ar gyfer canlyniadau cydymffurfiant meddyginiaeth yn nodi "for his physical" – mae'n glir nad yw'r frawddeg hon yn gyflawn ond llofnodwyd y ddogfen gan aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. | | d) Nyrs allweddol i fynd i'r afael â hyn a'i gwblhau, ac yna cael llofnod y tîm amlddisgyblaethol. | Nyrs allweddol a'r tîm amlddisgyblaethol | Cwblhawyd |
| e. Nid oedd gweithgareddau penwythnos ar gynllun gofal claf B ac nid oedd y cynllun yn gynhwysfawr gan nad oedd ystod o weithgareddau ystyrlon ynddo. | | e) Caiff gweithgareddau penwythnos eu dewis gan yr holl gleifion bob bore dydd Gwener yn ystod cyfarfod cymunedol (Gweler pwynt gweithredu 12). Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr ystod o weithgareddau ar benwythnosau yn fwy eang.<br><br>Byddai cofnodi ein gweithgareddau penwythnos mewn ffordd ffurfiol ar raglen weithgareddau cleifion unigol yn cyfyngu ar yr ystod o weithgareddau sydd ar gael ar y penwythnos, ac yn ogystal â hynny byddai'n rhaid addasu â llaw, argraffu a llofnodi pob rhaglen therapi ar gyfer cleifion unigol, a'i gosod yn ffeiliau unigol y cleifion yn wythnosol.<br><br>Cyfyngiad arall sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yw y byddai'n lleihau amser cyswllt cleifion yn sylweddol.<br><br>Trafodir rhaglenni therapi yn Delfryn gyda chleifion ar sail anghenion unigol ac ar gyflymder sy'n addas i | Therapydd galwedigaethol | I'w cwblhau erbyn diwedd mis Medi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gymhelliant a galluoedd y cleifion. Y gweithgareddau yn rhaglen therapi pob unigolyn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gennym i gefnogi cleifion i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw yn annibynnol, ac maent yn rhoi budd therapiwtig i'r claf hefyd. Dylid ystyried bod y budd therapiwtig yn cynyddu pan mae'r claf yn ystyried bod y gweithgareddau'n ystyrlon.<br><br>f) Ymweliad gan gyfarwyddwr iechyd meddwl oedolion ar ddydd Gwener 29 Awst i adolygu'r mater hwn.<br><br>g) Adolygwyd a chywirwyd.<br><br>h) Trafodir rhaglenni therapi yn Delfryn gyda chleifion ar sail anghenion unigol ac ar gyflymder sy'n addas i gymhelliant a galluoedd y cleifion. Y gweithgareddau yn rhaglen therapi pob unigolyn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gennym i gefnogi cleifion i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw | Cyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion.<br><br>Pennaeth Gofal Nyrs allweddol RC<br><br>Therapydd Galwedigaethol | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>I'w cwblhau'n fisol drwy gydol arhosiad y claf. |
| f. Nid oedd tystiolaeth o lofnod claf C (Delfryn House) pan newidiodd y lefelau risg, ac nid oedd graddfa risg wedi'i nodi ar ei asesiad risg derbyn.<br>g. Roedd claf C wedi cael presgripsiwn (morffin sylffad) i leddfu poen ond ni adlewyrchwyd hyn yn ddigonol yn y cynllun gofal ac nid oedd asesiad risg ar gael mewn perthynas â phoen.<br>h. Roedd diffyg gweithgareddau penwythnos a diffyg rhai ystyrlon yn amserlen weithgareddau claf C. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn annibynnol, ac maent yn rhoi budd therapiwtig i'r claf hefyd.  Dylid ystyried bod y budd therapiwtig yn cynyddu pan mae'r claf yn ystyried bod y gweithgareddau'n ystyrlon. | | |
| i. Nid oedd tystiolaeth o lofnod claf D (Delfryn House) pan fo lefel y risg yn newid. | | i) Wedi'i ddatrys. | Nyrs allweddol<br>Pennaeth Gofal | Cwblhawyd |
| j. Ni raddiwyd yr adran camddefnyddio sylweddau ac amgylchiadau cymdeithasol yn yr asesiad risg derbyn ar gyfer claf D. | | j) Wedi'i ddatrys. | Nyrs allweddol<br>Pennaeth Gofal | Cwblhawyd |
| k. Nid oedd tystiolaeth o lofnod claf A (Delfryn House) pan fo lefel y risg yn newid. | | k) Wedi'i ddatrys. | Nyrs allweddol<br>Pennaeth Gofal | Cwblhawyd |
| l. Roedd diffyg gweithgareddau penwythnos a diffyg rhai ystyrlon ar amserlen gweithgareddau claf A. | | l) Trafodir rhaglenni therapi yn Delfryn gyda chleifion ar sail anghenion unigol ac ar gyflymder sy'n addas i gymhelliant a galluoedd y cleifion.  Y gweithgareddau yn rhaglen therapi pob unigolyn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gennym i gefnogi cleifion i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw yn annibynnol, ac maent yn rhoi budd therapiwtig i'r | Therapydd Galwedigaethol | I'w cwblhau'n fisol drwy gydol arhosiad y claf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | claf hefyd. Dylid ystyried bod y budd therapiwtig yn cynyddu pan fo'r claf yn ystyried bod y gweithgareddau'n ystyrlon. | | |
| m. Nid oedd holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol wedi llofnodi asesiad START(asesiad tymor byr o risg a'r gallu i drin) claf E (Delfryn Lodge). | | m) Wedi'i ddatrys. | Nyrs allweddol<br>Pennaeth Gofal<br>Tîm amlddisgyblaethol | Cwblhawyd |
| n. Nid oedd cynllun rhyddhau ar waith ar gyfer claf E. | | n) Wedi'i ddatrys ac mae cynllun rhyddhau claf bellach ar waith. | Nyrs allweddol<br>Pennaeth Gofal<br>Tîm amlddisgyblaethol | Cwblhawyd |
| o. Nid oedd amserlen weithgareddau claf E yn rhestru gweithgareddau penwythnos. Hefyd, roedd diffyg amrywiaeth ar yr amserlen, ac roedd diffyg sesiynau ar rai diwrnodau. | | o) Caiff gweithgareddau penwythnos eu penderfynu gan yr holl gleifion bob bore dydd Gwener yn ystod cyfarfod cymunedol (Gweler pwynt gweithredu 12). Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr ystod o weithgareddau ar benwythnosau yn fwy eang.<br><br>Byddai cofnodi ein gweithgareddau penwythnos mewn ffordd ffurfiol ar raglen weithgareddau cleifion unigol yn cyfyngu ar yr ystod o weithgareddau sydd ar gael ar y penwythnos, ac yn ogystal â hynny byddai'n rhaid addasu â llaw, argraffu a llofnodi pob | Therapydd Galwedigaethol | I'w cwblhau'n fisol drwy gydol arhosiad y claf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhaglen therapi ar gyfer cleifion unigol, a'i gosod yn ffeiliau unigol y cleifion yn wythnosol.<br><br>Cyfyngiad arall sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yw y byddai'n lleihau amser cyswllt cleifion yn sylweddol. Yn benodol o ran claf EC, roedd yn cael ei arsylwi 1:1 adeg yr adolygiad diwethaf o'r rhaglen. Ar yr adeg honno, gwrthododd EC ymwneud â therapi galwedigaethol, ac roedd yn dangos diffyg cymhelliant i wneud gweithgareddau.<br><br>Trafodir rhaglenni therapi yn Delfryn gyda chleifion ar sail anghenion unigol ar gyflymder sy'n addas i gymhelliant a galluoedd y cleifion.<br><br>Bydd EC yn parhau i dderbyn clinig therapi galwedigaethol misol, ac yno caiff cynnwys y rhaglen, y gweithgareddau a fynychir a'r cynlluniau gofal eu hadolygu gydag EC (hon ydy'r broses gyda phob claf). Mae hyn yn sicrhau bod ystod o weithgareddau ar gael a chan mai'r claf sy'n ei ddewis gellir tybio ei fod yn ystyrlon. Y gweithgareddau yn rhaglen therapi pob unigolyn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gennym i gefnogi cleifion i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw yn annibynnol, ac maent yn rhoi budd therapiwtig i'r claf hefyd. Dylid ystyried bod y budd therapiwtig yn cynyddu pan fo'r claf yn ystyried bod y gweithgareddau'n ystyrlon. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| p. Roedd yr adran caniatâd ffotograffau ar gynllun gofal claf F (Delfryn Lodge) yn wag.<br><br>q. Ni ddiweddarwyd cynllun gofal meddyginiaeth claf F yn dilyn digwyddiad lle roedd hi'n storio meddyginiaeth nad oedd hi wedi'i chymryd. Dyddiwyd y digwyddiad 21/06/2014. | | p) Wedi'i ddatrys.<br><br>q) Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. | Nyrs allweddol<br><br>Nyrs allweddol | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| 4. Roedd nifer sylweddol o staff nad oeddent wedi derbyn arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf. Yn ôl ystadegau a gynhyrchwyd, roedd angen arfarniad ar 101 allan o 115 o'r staff, er gwaetha'r sicrwydd a roddwyd y byddai'r rhain yn cael eu cwblhau | **Rheoliad 20 (2) (a)** | 4a) Gweler yr atodiad (atodiad B – Goruchwyliaeth a thystiolaeth arfarniadau)<br><br>Nid yw'r holl staff wedi derbyn eu harfarniad 31 Awst, yn unol â'r cais. Mae hyn oherwydd bod staff yn derbyn arfarniad yn unig ar, neu o amgylch, eu dyddiad dechrau bob blwyddyn. Gweler isod ddyfyniad o'n polisi arfarniadau blynyddol ac arferion.<br><br>1. "Mae'r rheolwr sy'n cynnal yr arfarniad yn | Rheolwr<br>Pennaeth Gofal<br>Pennaeth yr Adran<br>Gweinyddwr | Cwblhawyd erbyn 31 Awst |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| erbyn 31/07/2014. Rhaid i'r holl staff dderbyn arfarniad erbyn Awst 2014.<br>*Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod yr ystadegau hyn yn anghywir ac y byddai system ar gyfer darparu ffigurau cywir yn cael ei darparu i AGIC.* | | cytuno'r dyddiad gyda'r unigolyn sy'n derbyn yr arfarniad yn y cyfarfod goruchwylio sydd cyn yr arfarniad. Dylai fod ar neu o amgylch y dyddiad y dechreuodd y cyflogai. Os yw'r unigolyn sy'n derbyn yr arfarniad yn rheolwr, rhaid cytuno ar enwau'r rhai fydd yn cyfrannu at yr adborth er mwyn gallu anfon llythyrau 360° Llythyr Arfarnu (HR 4.6.8).”<br>2.<br>Mae'r ystadegau bellach yn gyfoes ac fe'u hadolygwyd ers yr ymweliad diwethaf. Rydym wedi gosod dyddiadau arfarniadau a sesiynau goruchwylio yn lle ticiau er mwyn ein galluogi i gadw'r holl gofnodion yn gywir. | | Parhaus<br>Monitro bob 12 mis |
| 5. Roedd nifer sylweddol o staff yn dal heb dderbyn sesiwn oruchwylio ers yr ymweliad arolygu diwethaf (pwynt 4, llythyr Mai 2014). Rhaid i'r holl staff gael goruchwyliaeth reolaidd a gofnodir. | **Rheoliad 20 (2) (a)** | 5) Gweler yr atodiad (atodiad B – Goruchwyliaeth a thystiolaeth arfarniadau) | Pennaeth Gofal Gweinyddwyr | Rhaglen barhaus 12 mis i sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio â hyfforddiant a goruchwyliaeth. |
| 6. Gwnaeth adolygiad o'r cofnodion hyfforddi nodi'r canlynol: | **Rheoliad 20 (1) (a) (2) (a)** | 6a) Gweler yr atodiad (atodiad C – Tystiolaeth matrics hyfforddiant ac atodiad D Amserlen hyfforddiant) | Pennaeth Gofal Gweinyddwyr | Rhaglen barhaus 12 mis i sicrhau bod staff yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a. Roedd nifer sylweddol o staff heb hyfforddiant sylfaenol cyfredol mewn cynnal bywyd.<br>Roedd ystadegau hyfforddi'n dangos nad oedd yr un o'r nyrsys cofrestredig yn Delfryn House na Delfryn Lodge wedi cael hyfforddiant sylfaenol cyfredol mewn cynnal bywyd. | | | | parhau i gydymffurfio â hyfforddiant a goruchwyliaeth. |
| b. Roedd hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gyfyngedig ledled yr ysbyty. Gweler pwynt 14 o dan Fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl. | | 6b) Gweler yr atodiad (atodiad C a D) | Pennaeth Gofal Gweinyddwyr | Gweler crynodeb a chynllun gweithredu |
| c. Nid oedd hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ar gyfer staff banc wedi gwella. Nid oes gan yr holl nyrsys banc cofrestredig na chwaith 9 gweithiwr cymorth banc hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol cyfredol. Crybwyllwyd hyfforddiant | | 6c) Gweler yr atodiad (atodiad C a D) | Pennaeth Gofal Gweinyddwyr | Gweler crynodeb a chynllun gweithredu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ym mis Mai 2014 (pwynt 8) a rhaid gweithredu ar unwaith. Rhaid mynd i'r afael â'r holl ddiffygion a nodwyd o ran hyfforddiant. | | | | |
| 7. Dywedodd nifer o staff a gyfwelwyd yn Delfryn Lodge fod morâl yn yr uned yn dal i fod yn isel ac nad oeddent bob amser yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi. Gwnaeth y mwyafrif o'r staff gydnabod bod yna welliant o ran lefelau staffio yn ystod y dydd. Rhaid rhoi strategaethau ar waith i wella morâl. Nodwyd y broblem yn ein hymweliad ym mis Mai 2014 (pwynt 7) ac mae angen gweithredu ar unwaith. | **Rheoliad 18 (2) (a) (b)** | 7) Crëwyd swydd newydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau yng Nghymru gan Cambian. Dechreuodd deiliad y swydd ar 1 Awst ac mae ganddo brofiad blaenorol diweddar yn Delfryn. Hyd yn hyn, cadeiriwyd 4 Fforwm Agored gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau er mwyn canfod safbwyntiau a barn y staff. Roedd presenoldeb da yn y rhain a chodwyd a thrafodwyd ystod o faterion. Gofynnwyd y cwestiwn am forâl yn benodol, a'r themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg oedd bod rhai staff yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi digon ac yn teimlo nad oedd ganddynt lais, yn ogystal â thâl gweithwyr cymorth. Dechreuwyd strategaeth ymgysylltu â staff ac mae'n cynnwys fforymau<br>- misol parhaus sy'n agored i'r holl staff ac yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br>- Mae gan y fforymau ddau bwrpas. Caniatáu staff i fynegi eu safbwyntiau, syniadau a phryderon gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac i sicrhau y caiff | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion. | Dechreuwyd, Caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | diweddariadau cyson ar ddatblygiadau a materion Corfforaethol eu cyfathrebu i'r staff mewn ffordd effeithiol.<br>- Yn dilyn pob fforwm bydd nodyn briffio ar ffurf cylchlythyr er mwyn sicrhau bod y staff nad oeddent yn gallu mynychu'r fforwm hefyd yn ymwybodol o gynnwys y fforwm<br>- Caiff Nyrsys Staff a Gweithwyr Cymorth o bob un o'r tair uned eu cynrychioli'n rheolaidd bellach yn fforwm Llywodraethu Clinigol misol Delfryn<br>- Cefnogi Gweithwyr Cymorth i fynychu cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol yn rheolaidd.<br><br>Mae'n debygol y bydd yr ymgyrch recriwtio lwyddiannus hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar forâl. | | |
| 8. Er mwyn sicrhau bod gan staff ddigon o amser i ymgysylltu â chleifion, rhaid cynnal adolygiad o'r ddogfennaeth gofal helaeth y mae'n rhaid i'r staff ei chwblhau yn ysbyty Delfryn. | **Rheoliad 18 (2) (a) (b) Rheoliad 19 (1) (a) (b)** | 8) Cytunwyd ar adolygiad corfforaethol o ddogfennaeth gofal ac fe'i cyflawnir gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion. Nod yr adolygiad hwn yw galluogi nyrsys i dreulio llai o amser yn cwblhau gwaith papur ac i leihau'r ddogfennaeth lle bo'n bosibl. Bydd staff nyrsio'n weithredol yn y broses hon a bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yn cwrdd â staff nyrsio | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Clinigol Grŵp / Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Delfryn ar 29 Awst i symud y mater hwn yn ei flaen. | | |
| 9. Nid oedd y nyrs â gofal yn llofnodi'r cofnodion arsylwadol yn Delfryn Lodge yn rheolaidd o hyd. Rhaid i'r holl gofnodion gael eu llofnodi er mwyn hyrwyddo trefn lywodraethol effeithiol. Crybwyllwyd y broblem hon (pwynt 9) yn ein hymweliad ym mis Mai 2014 ac mae angen gweithredu ar unwaith. | **Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c) Rheoliad 19 (1) (a) (b)** | 9) Cynhelir archwiliad boreol o'r cofnodion arsylwadol. Gwneir hyn yn ddyddiol a chaiff ei gymryd i gyfarfod y bore. Os darganfyddir diffygion neu fylchau bydd y pennaeth gofal yn gweithredu ac yn sicrhau bod llofnod. | Pennaeth Gofal | Parhaus |
| 10. Mae angen sgan brys ar glaf G (Delfryn Lodge) a rhaid trefnu hwn ar unwaith a chymryd camau dilynol.<br>Dyddiad cyntaf y sgan oedd 31/05/2014, ond canslwyd hwn gan yr ysbyty GIG a ni roddwyd dyddiad newydd. Rhaid i'r | **Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c)** | 10) Bydd yr ysbyty yn dal i weithredu o ran trefnu sgan ar gyfer claf CL.<br>Gellir dod o hyd i dystiolaeth o geisiadau a wnaed yn y nodiadau nyrsio pinc. Mae'r RC wedi ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth GIG hefyd. | Pennaeth Gofal<br>Nyrs allweddol<br>RC | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| darparwr cofrestredig weithredu ynghylch yr apwyntiad hwn a sicrhau bod y claf yn derbyn y sgan ac unrhyw driniaeth briodol. | | | | |
| 11. Dywedodd nifer o staff wrthym fod yn rhaid i'r rhai sy'n gyrru cerbyd yr ysbyty dalu tâl-dros-ben o £250 os ydynt yn cael damwain neu os caiff y cerbyd ei ddifrodi. O ganlyniad i hyn, prin yw nifer y staff sy'n gwirfoddoli i fod yn yrwyr, a'r canlyniad yw bod llai o gyfleoedd i gleifion wneud gweithgareddau hamdden a chymdeithasol yn y gymuned.<br>Mae angen adolygu'r polisi hwn er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael i gludo cleifion yn ôl yr angen. | **Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c)**<br>**Rheoliad 19 (1) (a) (b)** | 11. Rhoddwyd y polisi hwn ar waith o ganlyniad i nifer uchel o achosion o ddifrod damweiniol i gerbydau'r Cwmni, ac roedd pryder bod hyn o ganlyniad i esgeuluster mewn rhai achosion. Ein safbwynt Corfforaethol ynghylch y mater hwn yw y byddai'n rhaid i staff unigol dalu'r tâl-dros-ben o £250 yn unig os oedd tystiolaeth glir o esgeuluster. Mae hyn yn golygu mai'r Cwmni bydd yn talu'r tâl-dros-ben yn fynych. Cyfathrebwyd hyn i staff drwy gyfarfodydd staff a fforymau. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r neges hon. | Cyfarwyddwr Gweithredol yng Nghymru | Parhaus |
| 12. Nid oedd amserlen weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer cleifion ar benwythnosau. Caiff | **Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c)** | 12) Cynllunnir gweithgareddau penwythnos yn y cyfarfod cymunedol ar fore dydd Gwener, ac ystyrir dymuniadau, safbwyntiau ac anghenion yr holl gleifion. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y | Therapydd Galwedigaethol Cynorthwywyr therapi | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| awgrymiadau a cheisiadau am weithgareddau eu cyflwyno i staff gan gleifion, ac mae'r staff yn ceisio hwyluso'r ceisiadau. Fodd bynnag, gwnaeth cleifion adrodd bod digwyddiadau ar benwythnosau'n cael eu canslo am nifer o resymau, megis prinder staff neu lefelau arsylwi. Mae angen gwella o ran trefnu gweithgareddau ystyrlon i gleifion ar benwythnosau.<br><br>**Iechyd Meddwl**<br>Gwnaethom adolygu | | gweithgareddau a wneir ar y penwythnos yn ystyrlon i'r cleifion. Mae hyn hefyd yn golygu bod ystod o weithgareddau strwythuredig yn cael eu trefnu a'u bod yn cael eu hadolygu'n wythnosol.<br>• Bydd cyfarfodydd cymunedol yn parhau bob bore dydd Gwener fel fforwm ar gyfer cynllunio gweithgareddau strwythuredig ar y penwythnos.<br>• Bob penwythnos caiff un gweithiwr cymorth ei bennu i arwain gweithgareddau strwythuredig a ddewiswyd gan y cleifion yn ystod cyfarfod cymunedol dydd Gwener.<br><br>Bydd therapyddion galwedigaethol yn darparu hyfforddiant i uwch weithwyr cymorth ar sut i ddefnyddio'r teclyn electronig ar gyfer cofnodi gweithgareddau er mwyn nodi canlyniadau cyfranogiad ar y penwythnos ar gyfer yr holl gleifion unigol. | galwedigaethol<br>Pennaeth Gofal<br>Nyrs â gofal | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| dogfennau cadw statudol 5 o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar 3 o'r wardiau adeg ein hymweliad. | | | | |
| 13. Nid oedd ffurflenni asesu Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yn cynnwys yr asesiadau llawn yn sawl un o ddogfennau'r cleifion (6 allan o 7). | | 13) Gweler yr atodiad (atodiad E Ymateb Deddf Iechyd Meddwl) | Deddf Iechyd Meddwl | 16 Hydref –sesiwn gyntaf<br>Caiff yr ail sesiwn ei chadarnhau ym mis Hydref ac yna bydd yn parhau'n fisol ac yn cael ei hychwanegu at raglen dreigl 12 mis o hyd. |
| 14. Roedd y mwyafrif o'r staff heb dderbyn hyfforddiant ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. (yn gysylltiedig â phwynt 6b) | | 14) Gweler yr atodiad (atodiad E a C) | Deddf Iechyd Meddwl | |